

## Hysbyseb Cyflogwr

Teitl y Swydd	Garddwr Cynorthwyol
Sector Galwedigaeth:	Garddwriaeth
Nifer y Swyddi:	1
Enw'r Cwmni:	Ymddiriedolaeth Clough Williams-Ellis
Cymhwyster:	NVQ 1 – 2 mewn Garddwriaeth Amwynderau
Isafswm Oed:(16 + yn dibynnu ar y swydd)	16

### Disgrifiad Swydd (Cofiwch gynnwys cyflwyniad byr i'ch cwmni/busnes a rhestr o'r dyletswyddau)

#### Ynglŷn â'r gerddi

Mae gerddi preifat Syr Clough Williams-Ellis, Plas Brondanw, bellach ar agor i'r cyhoedd. Ystyrir gan lawer mai'r gerddi rhestredig Gradd 1 hyn yw creadigaeth hyfrytaf Clough ac maen nhw'n cyflwyno cyfres o olygfeydd dramatig a rhamantus o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

Wedi'u hysbrydoli gan erddi'r Dadeni yn yr Eidal, mae dylanwadau pensaernïol cadarn yn amlwg yn y waliau cerrig, y tocwaith a'r rhodfeydd o goed sy'n tywys llygad i gefnlen ddramatig y mynyddoedd y tu hwnt.

Tirwedd erddi unigryw a nodweddiadol, rhwng yr Wyddfa a'r môr, sy'n cynnwys borderi blodau, coed ffrwythau arbennig, nodweddion dŵr, llwyni a thocwaith.

#### Disgrifiad Swydd

Bydd y rôl hon yn cynnwys tasgau garddwriaethol ymarferol amrywiol i ddatblygu, gwella a gwarchod yr ardd a chyfrannu ar ddarpariaeth prosiectau amrywiol.

Byddwch yn cynorthwyo drwy sicrhau bod y gerddi yn cael eu cadw i safon uchel ac yn dangos angerdd a brwdfrydedd ynglŷn â phlanhigion.

Byddwch yn helpu gyda thirlunio caled a meddal a gwaith cynnal a chadw cyffredinol o gwmpas yr ardd, gyda thasgau fel torri gwair, tocio a thaenu tomwellt.

Byddwch yn helpu i blannu a chynnal a chadw coed, llwyni a phlanhigion llysieuol.

Byddwch yn ymwneud â'r cyhoedd o ddydd i ddydd, gan ateb y cwestiynau a'r ymholiadau sydd ganddynt.

Byddwch hefyd yn cynorthwyo gyda gweithdai a theithiau ac yn helpu gyda digwyddiadau, fel priodasau, yn ôl yr angen.

Byddwch yn cynorthwyo unrhyw wirfoddolwyr yn yr ardd ac yn eu helpu i wneud y mwyaf o'u hamser yn y gerddi.

Byddwch yn gyfathrebwr gwych ac yn aelod tîm brwd.

Fel rhan o'r rôl hon efallai y bydd gofyn i chi weithio ar benwythnosau.

**Priodweddau Personol Dymunol (Nodwch am ba fath io berson rydych chi'n chwilio)**

- Gorau oll os ydych chi'n siarad Cymraeg;
- Profiad garddio/garddwriaeth ymarferol blaenorol;
- Gwybodaeth am blanhigion a thechnegau garddwriaethol;
- Cyfarwydd â chyfarpar a pheiriannau garddio;
- Dealltwriaeth o ofynion lechyd a Diogelwch a chydymffurfio â nhw;
- Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol;
- Profiad o weithio fel rhan o dîm, gyda'r hyder i weithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun;
- Parodrwydd, brwdfrydedd ac ymrwymiad i'r hyn rydych chi'n ei wneud, ymfalchïo yn eich gwaith;

**Awr yr wythnos a/neu oriau Gwaith :**

30 awr yr wythnos (Ebrill i Hydref) 15 awr (Hydref i Ebrill)

**Cyflog:**

£5.00 / yr awr

Ymholiadau i: [francessteer@balfours.co.uk](mailto:francessteer@balfours.co.uk)

01743 241181